IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 3 AWST 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Kaaba a/ac Driscoll |

3 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

4 : MATERION CERBYD HACNI/LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

Achos 1

Hysbyswyd yr Is-bwyllgor y cafwyd cwynion gan ddau aelod o'r cyhoedd ynghylch ymddygiad gyrrwr. Roedd y cwynion yn ymwneud â digwyddiad pan honnwyd bod y gyrrwr wedi gwrthod defnyddio'r mesurydd tacsi ac wedi gofyn am flaendal o £50.

Derbyniodd aelodau sylwadau gan y Cyfreithiwr oedd yn cynrychioli'r Gyrrwr, gan ddweud bod y gyrrwr wedi gwrthod y pris i ddechrau ond yna gofynnodd am flaendal o £50 fel rhagofal oherwydd bod yr achwynwyr yn feddw ac roedd wedi eu gweld yn dadlau gyda dau yrrwr tacsi arall cyn mynd at ei gar. Ychwanegodd fod y gyrrwr wedi bod yn yrrwr ers 10 mlynedd, yn briod gyda 5 o blant, dyw ei wraig ddim yn gyrru ac na fyddai'n gwneud unrhyw beth i beryglu ei swydd dim ond am arian ychwanegol.

Doedd dim cwestiynau i'r gyrrwr ar hyn o bryd.

Derbyniodd aelodau sylwadau gan yr achwynwyr. Cafodd yr aelodau wybod bod 2 gwsmer benywaidd wedi bod i gyngerdd, fe gawson nhw un ddiod yno bryd hynny ar ôl y cyngerdd aethant i ganol y ddinas a chael un ddiod arall. Aethon nhw wedyn at y tacsi a dywedodd y gyrrwr yn syth mai £50 o flaendal fyddai hynny. Dywedodd yr achwynwyr nad oedden nhw'n feddw, roedd hi'n noson waith, bod ganddyn nhw blant gartref. Dywedon nhw wrth y gyrrwr bod un o'r menywod yn gweithio i'r Awdurdod Lleol a gofynnodd hi iddo ddefnyddio ei fesurydd. Dywedodd hi na fyddai ef yn gwrando, meddai na ac ailadroddodd ei fod eisiau blaendal o £50. Cerddodd y merched i ffwrdd gan ddweud y byddent yn tynnu llun o'i fathodyn ac yn adrodd amdano.

Cafodd yr aelodau wybod wedyn bod yr achwynwyr wedi mynd at dacsi arall a ofynnodd am flaendal o £40, fe wrthodon nhw a thynnu llun o'i fathodyn, bod hyn wedi'i gynnwys yn y gwaith papur. Aethon nhw ati wedyn i fynd at dacsi arall a ddywedodd ei fod eisiau 2 bris ar wahân yn hytrach na'u bod nhw'n rhannu. Gwrthodon nhw a thynnu llun o'i fathodyn ond roedd hyn yn rhy aneglur i fod yn y gwaith papur. Cytunodd y tacsi nesaf i fynd â nhw ac i ddefnyddio'r mesurydd. Dywedodd y menywod wrth y gyrrwr hwn beth oedd wedi digwydd a dywedodd ef ei bod wedi dod yn arfer cyffredin oherwydd Uber ac ati. Cafodd yr aelodau

wybod bod y daith wedi costio cyfanswm o £25 gan gynnwys taliad tip ar gyfer y ddwy fenyw. Ychwanegodd y menywod fod gan y ddwy ohonyn nhw ferched a bod y rheiny'n poeni amdanyn nhw'n defnyddio tacsis.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-Bwyllgor ar ffi'r daith a aeth â nhw adref, fe wnaeth yr achwynwyr egluro mai £22 oedd y pris ac fe wnaethon nhw roi tip o £3.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr ei fod wedi bod yn gyrru ers 2012. Gofynnodd yr aelodau a yw'r gyrrwr wedi gofyn am flaendaliadau o'r blaen gan nad yw hyn yn drefn arferol ac y dylai fod yn defnyddio mesurydd yn unig. Dywedodd y gyrrwr ei fod yn gofyn am flaendaliadau am bris siwrnai y tu allan i'r ddinas.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael ei atal am 7 diwrnod am wrthod siwrnai.

Achos 2

Hysbyswyd yr Is-bwyllgor y gafwyd cwynion gan aelod o'r cyhoedd oedd yn ddefnyddiwr cadair olwyn ynghylch ymddygiad gyrrwr. Roedd y gŵyn yn ymwneud â digwyddiad pan honnwyd bod y gyrrwr wedi gwrthod mynd â'r achwynydd yn ei gadair olwyn, gyda'i frawd.

Cafodd aelodau gynrychiolaeth gan yr achwynydd, gan ddweud eu bod wedi mynd at dacsi hygyrch i gadeiriau olwyn yn agos i'r Theatr Newydd, wedi dweud wrth y gyrrwr ble roedden nhw eisiau mynd a phan aethon nhw i gefn y cerbyd, gwnaeth y tacsi yrru i ffwrdd. Cafodd is-bwyllgor luniau teledu cylch cyfyng o'r safle tacsis adeg y gŵyn.

Derbyniodd aelodau sylwadau gan y gyrrwr a ddywedodd ei fod wedi cael ei stopio ger y Theatr Newydd, aeth dyn ato a soniodd am fynd i Drelái gyda'i frawd oedd mewn cadair olwyn. Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi dweud wrth y dyn i fynd i ddod â'i frawd, fe arhosodd am amser hir ond na ddaethon nhw. Mae'r gyrrwr yn honni bod y dyn a aeth ato yn rhegi ac roedd o'n ofnus y gallai fod trafferth, ychwanegodd nad oedd wedi siarad gyda'r defnyddiwr cadair olwyn. Ychwanegodd ei fod wedi dioddef ymosodiad a dwyn yn flaenorol felly mae'n ofalus.

Dywedodd y gyrrwr ei fod yn gyrru pobl ag anableddau'n rheolaidd, roedd yn difaru'r hyn oedd wedi digwydd ac ymddiheuro.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael ei atal am 7 diwrnod am wrthod siwrnai.

Cais 3

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd gyrrwr yn berson addas a phriodol i gynnal trwydded wedi iddo beidio datgelu rhybudd yr heddlu ar ei gais i adnewyddu. Amlinellodd y Swyddog Trwyddedu'r achos, a gofynnwyd i'r gyrrwr esbonio'r amgylchiadau.

Esboniodd y gyrrwr fod ei dad wedi mynd â thri theithwyr i Lundain, roedd yr Heddlu'n ymchwilio iddyn nhw a aeth i gartref y teulu gyda gwarant i fynd â char y tad am ychydig ddyddiau ac roedd y gyrrwr wedi rhwystro'r cwnstabl gan ei fod yn credu ei fod yn mynd â'r car am byth a dyna oedd bywoliaeth ei dad.

Yng ngorsaf yr heddlu roedd y gyrrwr wedi gofyn a fyddai'r rhybudd yn dangos ar ei ffeil ac a oedd angen iddo ddatgan hynny i'r awdurdod trwyddedu ac roedd yr heddlu wedi ei gynghori na fyddai'n dangos ar ei ffeil. Dywedodd pe bai wedi gwybod y byddai wedi datgan hynny.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-Bwyllgor, eglurodd y gyrrwr ymhellach y sefyllfa gan ddweud bod yr heddlu wedi ymddiheuro am beidio gwneud y sefyllfa'n glir ar y pryd ac na fyddai camau pellach yn cael eu cymryd yn ei erbyn.

Ychwanegodd y gyrrwr ei fod wedi datgan trosedd yn flaenorol ar gais ac y byddai wedi gwneud hynny y tro hwn pe byddai wedi gwybod y byddai'n dangos ar y gwiriad GDG.

Roedd y gyrrwr yn edifeiriol a dywedodd ei fod yn berson da a gyrru tacsi yw ei fywoliaeth.

PENDERFYNWYD - Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig am fethu â datgelu rhybudd heddlu ar ei gais i adnewyddu trwydded.  Cymeradwywyd adnewyddu’r drwydded

Cais 4

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd gyrrwr yn berson addas a phriodol i gynnal trwydded o ystyried bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi cael cyngor bod Mr Hamad yn destun euogfarn ynghylch amddiffyn defnyddwyr, masnachu annheg, troseddau hawlfraint a Nod Masnach.  Amlinellodd y Swyddog Trwyddedu'r achos, a gofynnwyd i'r gyrrwr esbonio'r amgylchiadau.

Esboniodd y gyrrwr ei fod wedi stopio gyrru tacsi yn 2019 a dechrau gweithio fel rheolwr siop ym Mhont-y-pŵl.  Dywedodd fod ei ffrind wedi dod â thybaco a sigaréts o'r tu allan i'r DU i'w gwerthu yn y siop.  Roedd wedi cymryd y nwyddau ac ychydig ddyddiau wedyn, ymwelodd Safonau Masnach â'r siop i wirio'r stoc. Gofynnon nhw a oedd y dreth wedi ei thalu ar y nwyddau pan gawson nhw eu mewnforio i mewn i'r DU.  Esboniodd y gyrrwr ei fod yn credu ei bod wedi ond yna fe welodd nad oedd hynny wedi’i wneud.  Roedd Safonau Masnach wedi cymryd y nwyddau.  Cafodd y gyrrwr ei anfon i'r llys yng Nghasnewydd fe blediodd yn euog ac fe gafodd ei ddirwyo.  Ers hynny roedd wedi ymddiswyddo o'r siop a does ganddo ddim cysylltiad â'r busnes bellach.

Roedd y gyrrwr wedi datgan yr euogfarn ar ei gais i adnewyddu'r drwydded.

PENDERFYNWYD – Nad oedd angen gweithredu pellach.  Cymeradwywyd adnewyddu'r cais.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am